

Wherever you are
whatever the time...



GIG
CYMRU
NHS
WALES



you can use the internet to

- request a repeat prescription
- book an appointment

Why use the internet?

To make life easier and more convenient for you, your GP practice is introducing appointment booking and requests for repeat prescriptions over the internet.



Booking an appointment

Using the new internet site called My Health Online, you are able to book an appointment. You will get confirmation back immediately online, so there is no need to re-confirm by phone or email. Just arrive promptly on the day. You can also view any appointments you have already made or cancel them if necessary.

Requesting a repeat prescription

Using the internet, you don't have to visit the practice to hand over your repeat prescription request. Once requested simply collect your prescription as usual.

Why is it happening now?

My Health Online is part of a Welsh Assembly Government initiative to improve patient care through better use of IT and information. It is brought to you by NHS Wales Informatics Service working together with your GP.

Getting started

Before you can start using My Health Online, you must register your details at reception. You will need to provide some proof of identity. When you have done this you will then be provided with PIN numbers to register online and set up your account.

Is my information safe?

Your personal details are protected using the highest standards of internet security to prevent them being intercepted. It is your responsibility to keep your log in details safe. Only you and your GP surgery are able to see this information. If you have any further enquiries please ask at reception.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ble bynnag yr
ydych neu faint
bynnag o'r gloch
yw hi...



medr wch ddefnyddio'r
rhynggrwyd

- i wneud cais am bresgripsiwn amlroddadwy
- a threfnu apwyntiad

Pam defnyddio'r rhyngrwyd?

Er mwyn gwneud bywyd yn haws ac yn fwy cyfleus i chi, mae eich meddygfa'n cyflwyno dull o drefnu apwyntiadau a gwneud ceisiadau am bresgripsiynau amlroddadwy dros y rhyngrwyd.



Trefnu apwyntiad

Trwy ddefnyddio safle newydd ar y rhyngrwyd o'r enw Fy Iechyd Ar-lein, byddwch chi'n gallu trefnu apwyntiad. Byddwch chi'n cael cadarnhad ar unwaith felly ni fydd angen ailgadarnhau dros y ffôn neu drwy neges e-bost. Y cyfan mae angen i chi ei wneud yw cyrraedd yn brydlon ar y diwrnod. Gallwch hefyd weld unrhyw apwyntiadau a wnaed gennych chi eisoes, neu eu canslo os oes angen.

Gwneud cais am bresgripsiwn amlroddadwy

Trwy ddefnyddio'r rhyngrwyd, nid oes rhaid i chi ddod i'r feddygfa i gyflwyno'r slip cais am bresgripsiwn amlroddadwy. Pan fyddwch wedi gwneud cais, gallwch gasglu'ch presgripsiwn yn ôl yr arfer.

Pam mae hyn yn digwydd yn awr?

Mae Fy Iechyd Ar-lein yn rhan o fenter gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i wella'r gofal i gleifion drwy ddefnyddio TG a gwybodaeth yn well. Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn gweithio gyda'ch meddyg teulu sy'n cyflwyno'r gwasanaeth hwn.

Cychwyn Arni

Cyn i chi allu defnyddio Fy Iechyd Ar-lein, mae'n rhaid i chi gofrestru eich manylion wrth y dderbynfa. Bydd rhaid i chi ddangos rhyw fath o brawf o bwy ydych. Ar ôl i chi wneud hyn rhoddir rhifau PIN i chi er mwyn cofrestru ar-lein a sefydlu eich cyfrif.

A yw fy ngwybodaeth yn ddiogel?

Mae eich manylion personol yn cael eu diogelu gan ddefnyddio'r safonau uchaf o ddiogelwch ar y rhyngrwyd er mwyn atal unrhyw ymyrraeth â'ch manylion. Eich cyfrifoldeb chi fydd cadw'ch manylion mewngofnodi yn ddiogel. Dim ond chi a'ch meddyg teulu sy'n gallu gweld y wybodaeth hon. Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, holwch yn y dderbynfa.